

(2)LEG-04-2003 (min)

CYFARFOD Y PWYLLGOR DEDDFAU

COFNODION

Dyddiad: 1 Gorffennaf 2003

Amser: 9.30am

Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 1, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol

Presennol:

Eleanor Burnham (Democrat Rhyddfrydol)

Christine Chapman (Llafur)

Jeff Cuthbert (Llafur)

Glyn Davies (Ceidwadwyr)

Irene James (Llafur)

Elin Jones (Plaid Cymru)

Laura Jones (Ceidwadwyr)

Dai Lloyd (Plaid Cymru)

Catherine Thomas (Llafur)

Swyddogion

John Turnbull Ymgynghorydd Cyfreithiol

Huw Rowlands Ymgynghorydd Cyfreithiol Cynorthwyol

Olga Lewis Clerc y Pwyllgor

Ymddiheuriadau am absenoldeb: Rosemary Butler

Eitem 1: Cofnodion y Cyfarfod Diwethaf: (2)LEG-03-2003 (min)

1. Cytunodd y Pwyllgor ar gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 24 Mehefin 2003 yn

amodol ar un cywiriad, gosod pwynt bwled ychwanegol ym mharagraff 4.3 sy'n nodi bod y Pwyllgor yn gofyn am ragor o wybodaeth ar argaeledd cyrsiau CGC mewn cyfieithu i ddarllen fel a ganlyn:

- *Nodwyd er nad oedd unrhyw raddau mewn cyfieithu yng Nghymru, bod rhai CGC lefel uwch ar gael i'r rhai sy'n gweithio gyda ieithoedd. Atebodd Dr Crowe ei fod wedi clywed am y CGC, ond nad oedd yn sir o'r manylion. Awgrymwyd y dylai'r Pwyllgor dderbyn gwybodaeth fanylach ar y cwestiwn hwn. **Gweithredu: Dr Crowe***

Eitem 2: Adroddiad y Cadeirydd

2.1 Hysbysodd y Cadeirydd y Pwyllgor fod Mr Winston Roddick CF, y Cwnsler Cyffredinol yn ymweld â'r Pwyllgor ac y byddent yn cael trafodaeth gydag ef ar ôl ystyried yr Offerynnau Statudol.

2.2 Hysbysodd y Cadeirydd y Pwyllgor ei fod bellach wedi derbyn ymateb gan y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio Ms Edwina Hart AS ynglyn â'r defnydd o'r weithdrefn Weithredol i wneud "Gorchymyn Tai (Hawl i Brynu) (Cyfyngiadau Disgownt) (Diwygio) (Cymru) 2003". Nododd y byddai ymateb y Gweinidog yn cael ei drafod yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor 8.07.03.

Eitem 3: Gorchymynion y Cynulliad i'w Hystyried

3.1 Hysbysodd y Cadeirydd yr Aelodau bod **LC712 – Gorchymyn Deddf Anghenion Addysgol Arbennig ac Anabledd 2001 (Cychwyn Rhif 2) (Cymru) 2003** wedi cael ei dynnu oddi ar yr Agenda ar gais Swyddfa'r Cwnsler Cyffredinol. Anfonwyd llythyr gan Ysgrifenyddiaeth y Cabinet at yr Aelodau ynglyn â hyn.

3.2 Mewn perthynas â'r Offerynnau Statudol canlynol cytunodd yr Aelodau y dylid gwneud yr adroddiadau ar ffurf y drafftiau a gyflwynwyd i'r Pwyllgor gan yr Ymgynghorwyr Cyfreithiol.

LC713 – Rheoliadau Addysg (Cynlluniau Trefniadaeth Ysgolion) (Cymru) 2003

3.3 Codwyd cwestiwn ynglyn â ph'un a oedd y rheoliadau hyn yn cwmpasu gwaith sylweddol o ad-drefnu ysgolion. Dywedodd yr Ymgynghorydd Cyfreithiol y byddai'n cael mwy o wybodaeth ar y mater. **Gweithredu: Ymgynghorydd Cyfreithiol.**

LC714 – Rheoliadau Lles Anifeiliaid a Ffermir (Cymru) (Diwygio) 2003

LC715 – Gorchymyn Deddf Addysg 2002 (Cychwyn Rhif 2) (Cymru) 2003

LC716 – Rheoliadau Deddf Addysg 2002 (Darpariaethau Trosiannol a Diwygiadau Canlyniadol) (Cymru) 2003

LC717 – Rheoliadau'r Polisi Amaethyddol Cyffredin (Gwin) (Cymru) (Diwygio) 2003

LC718 – Rheoliadau Halogion mewn Bwyd (Cymru) 2003

LC719 – Gorchymyn Diogelwch Bwyd (Llongau ac Awyrennau) (Cymru) 2003

LC720 – Rheoliadau Addysg (Lleoedd a Gynorthwyr) (Mân Dreuliau) (Diwygio) (Cymru) 2003

Eitem 4: Trafodaeth â Winston Roddick, Y Cwnsler Cyffredinol: Cyd-Ddrafftio Deddfwriaeth. Newidiadau i'r Cyngor Cyfreithiol a roddir i'r Pwyllgor Deddfau.

4.1 Croesawodd y Cadeirydd Mr Winston Roddick i'r Pwyllgor a'i wahodd i wneud cyflwyniad.

4.2 Yn ei gyflwyniad, cyfeiriodd Mr Roddick at y canlynol:

- Cydnabu pa mor bwysig oedd y Pwyllgor Deddfau i waith cwmpas y Cynulliad, gan gyfeirio at y ffaith ei fod a wnelo mwy â gwaith Swyddfa'r Cwnsler Cyffredinol nag unrhyw bwyllgor arall o'r Cynulliad. Felly, roedd yn bwysig bod yr Aelodau yn deall y broses o lunio deddfwriaeth.
- Roedd llawer o Aelodau newydd yn y Pwyllgor Deddfau ac, o ystyried pa mor bwysig yw gwaith y Cynulliad, cynghorir yr Aelodau i ymweld â Swyddfa'r Cwnsler Cyffredinol i gael trafodaeth gyda'r cyfreithwyr ac arsylwi'r broses ddeddfwriaethol. Ym marn Mick Bates, Cadeirydd blaenorol y Pwyllgor Deddfau bu'r ymweliadau hynny yn fuddiol iawn iddo ef ei hun ac i'r Aelodau.
- Credodd Mr Roddick fod y ffordd gyflym yr oedd y pwyllgor yn cynnal ei fusnes yn arwydd o brofiad a hyder cynyddol y pwyllgor wrth ymdrin â'r gwaith. Cyfeiriodd at y ffaith bod cylch gorchwyl y Pwyllgor wedi'i ddiffinio'n fanwl gan Ddeddf Llywodraeth Cymru a'r Rheolau Sefydlog.
- Roedd cyd-ddrafftio yn elfen newydd o broses ddeddfwriaethol Prydain. Daeth y broses o ailystyried dulliau drafftio yn angenrheidiol o ganlyniad i statws cyfreithiol yr iaith Gymraeg a'r ffaith ei bod yn ofynnol i'r Cynulliad gynhyrchu ei ddeddfwriaeth yn ddwyieithog, gan rhoi statws cyfreithiol cyfartal i'r testunau Gymraeg a Saesneg. Ar hyn o bryd, câi'r rhan fwyaf o

ddeddfwriaeth ei drafftio yn Saesneg yn gyntaf ac yna ei chyfieithu. Dim ond adlewyrchu arddull drafftio Lloegr yr oedd hyn yn ei wneud; nid adlewyrchwyd statws cyfreithiol yr iaith Gymraeg; daeth arddull Whitehall yn arddull Cymru. Byddai parhau â'r cyfieithu yn golygu na fyddai deddfwriaeth y Cynulliad yn wahanol i deddfwriaeth San Steffan o ran arddull.

- Er mwyn datblygu technegau cyd-ddrafftio byddai'n fuddiol troi at y gwledydd lle y defnyddir y dull hwn o ddrafftio deddfwriaeth, er enghraifft, at Ganada, lle llunnir y deddfwriaeth yn Saesneg a Ffrangeg ar yr un pryd, heb roi blaenoriaeth i un iaith benodol. Dewiswyd New Brunswick am ei bod yn cyfateb orau â'r sefyllfa yng Nghymru yn economaidd ac o ran poblogaeth. Roedd yr ymweliadau yn ddefnyddiol iawn ac roedd yn caniatáu i'r tîm gael profiad o gyd-ddrafftio gyda'r bwriad o weithredu proses debyg yng Nghymru.
- Er y byddai'r sawl sy'n cyflawni swydd yr ymgynghorydd cyfreithiol yn newid ni fyddai unrhyw newidiadau sylfaenol yn y cyngor cyfreithiol a roddir i'r Pwyllgor, a fyddai'n parhau i fod yn annibynnol ac o safon uchel. Roedd ymgynghorwyr cyfreithiol i'r Pwyllgor yn rhan o Swyddfa'r Cwnsler Cyffredinol sy'n annibynnol ar y Llywodraeth ac ar Swyddfa'r Llywydd; roedd ganddi ei chyllideb ei hun. Pwysleisiodd y Cwnsler Cyffredinol, wrth reoli'r ymgynghorydd cyfreithiol presennol i'r Pwyllgor, ei fod yn cymhwyso "ymagwedd ysgafn" yn unig, gan barchu annibyniaeth y rôl felly. Roedd yn cyfarfod â holl gyfreithwyr Swyddfa'r Cwnsler Cyffredinol yn rheolaidd, ac roedd hynny'n cynnwys Ymgynghorwyr Cyfreithiol y Pwyllgor. Ailraddiwyd swydd yr Ymgynghorydd Cyfreithiol o ganlyniad i broses a wiriwyd yn annibynnol a chanfuwyd bod y swydd yn radd 6 ac nid 3. Yng ngoleuni'r newid hwnnw, gallai'r Cwnsler Cyffredinol drosglwyddo'r cyfrifoldeb rheoli a phroffesiynol dros y ddau ymgynghorydd cyfreithiol i Peter Jones. Y Cwnsler Cyffredinol fyddai'r swyddog gwrthlofnodi a phennaeth y proffesiwn.

3. Wrth drafod, codwyd y pwyntiau canlynol:

- O ran cyngor annibynnol, holwyd sut oedd yr ymgynghorydd i'r Llywydd a'r cwnsler i bwyllgorau'r Cynulliad yn ffurfio rhan o'r system gyffredinol o roi cyngor cyfreithiol annibynnol i'r pwyllgorau. Pe bai anghytundeb rhwng yr ymgynghorwyr cyfreithiol i swyddfa'r llywydd a'r gweinidogion, o ba gyfeiriad y deuai'r cyngor? Nododd Mr Winston Roddick fod rôl y Cwnsler Cyffredinol yn un awdurdodol wrth roi cyngor i'r Cynulliad. Roedd "awdurdodol" yn golygu bod ei gyngor yn derfynol ac yn bwysicach na dim arall. Dim ond yn y ffordd honno y gallai cyrff democrataidd weithredu. Gallai swyddogion, AC, gweinidogion a phwyllgorau wneud penderfyniad sy'n groes i gyngor cyfreithiol y Cwnsler Cyffredinol ond byddai gwneud hynny yn creu risgiau i'r Cynulliad ac i'r sawl sy'n gwneud y penderfyniad yn bersonol. Roedd gweithredu yn unol â'i gyngor yn diogelu'r sawl a oedd yn gwneud y penderfyniad rhag atebolrwydd personol. Pe bai'r Cwnsler Cyffredinol yn gwneud camgymeriad gallai gael ei feirniadu; gallai ef neu hi gael eu disodli, ond er mwyn osgoi atebolrwydd a risg bersonol iddynt hwy eu hunain ac i'r Cynulliad, dylai pob gwas sifil ac Aelodau'r Cynulliad ddilyn cyngor y Cwnsler cyffredinol yn yr amgylchiadau hynny. O ran materion proffesiynol roedd y cwnsler i bwyllgorau'r Cynulliad yn atebol i Bennaeth ei broffesiwn, sef y Cwnsler Cyffredinol, tra nad oedd yr ymgynghorydd i'r Llywydd yn rhan o staff y Cynulliad – roedd yn ymgynghorydd.
- Codwyd pwynt ynglyn ag anghytundeb posibl o ran barnau rhwng y Llywydd a chyfreithiwr a oedd yn cynghori Gweinidog. Eglurodd Mr Roddick fod Swyddfa'r Cwnsler Cyffredinol yn aml

yn cynghori'r Llywydd ar faterion amrywiol. Fodd bynnag, yr Adran Weithredol a fyddai'n gwneud penderfyniadau gweithredol fel arfer ac nid yr wrthblaid. Felly, ni fyddai gwrthdaro o ran barn rhwng Swyddfa'r Llywydd a chyfreithiwr sy'n cynghori Gweinidog yn digwydd yn aml. Mewn gwirionedd, roedd achosion o anghytuno yn brin. Er hynny, pe bai sefyllfa o'r fath yn codi, byddai'r Cwnsler Cyffredinol yn darparu'r cyngor awdurdodol ac yn gwneud hynny mewn ffordd blaen a didwyll. Nid oedd yn cynrychioli naill ai swyddfa'r llywydd na Llywodraeth Cynulliad Cymru. Mae'n cynrychioli'r Cynulliad.

- Cyfeiriwyd at y ffaith bod aelodau'r pwyllgor yn teimlo'n gryf iawn am annibyniaeth ac ansawdd y cyngor cyfreithiol yr oedd y Pwyllgor yn ei dderbyn. Rhoddwyd canmoliaeth uchel i waith yr ymgynghorydd cyfreithiol presennol i'r pwyllgor, Mr John Turnbull. Gan ystyried hyn, holwyd a fyddai gan yr ymgynghorydd newydd i'r pwyllgor yr un radd â'r ymgynghorydd presennol (gradd 3). Atebodd Mr Roddick, er y byddai'r ymgynghorydd newydd ar radd 6 is, y byddai ganddi/ganddo'r holl sgiliau priodol ar gyfer y swydd a byddai'n rhoi cyngor proffesiynol annibynnol yn union fel y gwnaeth John Turnbull. Byddai'r ymgynghorydd cyfreithiol cynorthwyol yn parhau yn swydd gradd 7. Gwnaed y penderfyniad ynglyn ag ailraddio ar ôl ystyried cwmpas y swydd yn ofalus.
- O ran cyd-ddrafftio, codwyd y cwestiwn ynglyn â'r cyfleoedd presennol ar gyfer cyd-ddrafftio, gan gofio bod y rhan fwyaf o ddeddfwriaeth y Cynulliad eisoes yn cael ei chyflwyno yn Saesneg. Atebodd y Cwnsler Cyffredinol fod y Cynulliad ar ddechrau proses esblygiadol o ddrafftio deddfwriaeth ddwyieithog yng Nghymru. Cynhaliwyd yr ymweliadau â Chanada er mwyn cael profiad yn y maes hwn. Byddai'n ddoeth ymweld â Chatalonia at yr un diben. Y nod oedd cyd-ddrafftio'r holl ddeddfwriaeth. Roedd Swyddfa'r Cwnsler Cyffredinol yn ymrwymedig i'r broses o wneud deddfwriaeth yn symlach ac yn fwy hygyrch. Roedd y dystiolaeth yn dangos bod deddfwriaeth a gyd-ddrafftwyd o safon uchel iawn.
- Gofynnwyd cwestiwn ynghylch staffio Swyddfa'r Cwnsler Cyffredinol. Eglurodd y Cwnsler Cyffredinol, pan ddechreuodd weithio yn yr hen swyddfa Gymreig, nad oedd cyfanswm y gweithwyr yn Swyddfa'r Cwnsler Cyffredinol yn wahanol iawn i'r nifer sydd yno ar hyn o bryd. Fodd bynnag, roedd llawer ohonynt yn weithwyr nad oeddent wedi hyfforddi fel cyfreithwyr ac yn fyfyrwyr nad oeddent wedi llawn gymhwyso. Dros y 4 blynedd diwethaf newidiodd y sefyllfa honno ac ar hyn o bryd roedd Swyddfa'r Cwnsler Cyffredinol yn cyflogi bargyfreithwyr a chyfreithwyr proffesiynol a swyddogion gweinyddol. Fodd bynnag, roedd angen cyfreithwyr profiadol newydd o hyd wrth i'r baich gwaith gynyddu.
- O ran amrywiaeth y gweithlu yn Swyddfa'r Cwnsler Cyffredinol, nododd y Cwnsler Cyffredinol ei fod yn fodlon iawn ar y sefyllfa bresennol yn ei swyddfa.

4.3 Diolchodd y Cadeirydd i Mr Winston Roddick CF am ei gyflwyniad.

Eitem 5: Unrhyw Fater Arall a Dyddiad y Cyfarfod Nesaf

5.1 Cynhelir y cyfarfod nesaf ar 8 Gorffennaf 2003.